Y Gwir anrhededdus Dâd yn Nuw,
IAGO VSHER Arch-eſcob o Armach,
ar Pnflwydd or Werddon oll.

Rob: Vaughan ai llunioddd.

Y Gwir anrhededdus Dâd yn Nuw,
IAGO VSHER Arch-eſcob o Armach,
ar Pnflwydd or Werddon oll.

Rob: Vaughan ai llunioddd.

PRIFANNAU

Crefydd Gristnogawl

A

Llwybraidd foddbyrr

or Athrawiaeth o honi.

O waith *Iago Usher* Escob *Armagh*,

A Chyfieithiad

Row. Vaughan, Esq.

2 Tim. 1. 13.

Dal yn dyn y ffurf ar eiriau purion, yr rhai a glywaist ti gennyf fi, mewn ffydd a chariad yr hon sydd Yng Nghrist Jesu.

c

LLUNDAIN,

Argraphedig gan *Joa. Streater*, tros *Philip Chetwinde*, 1658.

At y Darllennydd.

FY anwyl gydymdeithydd yn y bererindod ferr yn hyn o fyd, ti a ddiſgwili (yn ol yr arfer) ryw gyfarchiad yn nechreu pob llyfran: wele yma i ti brawf ar wyddorion dy grefydd, dyna y peth rheittiaf yn yr oes hon, (rhaid yw croppian cyn cerdded) nid myned i lyfr

i lyfr yr offeren, ac yn offeiriad hefyd, mal yr aeth llawer o Greſtwyr yn ddiweddar: *fal dyma i ti waith amgenach offeiriad* vn vnionddyſg etholedig: *os medrai Yr vn om cydnabyddiaeth i errioed ddeall neu ddirnad pur ddiwehilion ddyſgeidiaeth: Ychwaneg o lyfrau eraill i gynnerthwyo yr vniongrefydd Gymru a gyſieithais i ac a brintiwyd yn ddiweddar, eithr os vn or grefydd newydd wyt ti, ath*

cydwybod wedi ei ſer-
rio, ath eluſtian mal y
neidr fyddar, wedi dy
rybuddio vnwaith neu
Ddwy, etto heb amcanu
bwrw Ymaith dy gau gre-
diniaeth, Ymdrobredda
yn dy fryntni yn oeſtadol
jnid-iti y ſcrifennais ac
y cymregiais beth o waith
Doctor Prideaux Athro r
Gadair yn Rhydychen,
a Doctor Brough, a Do-
ctor Main (rhai a hyde-
rid arnynt am ddeongli
Gair Duw yn yr oes ddi-
waethaf) ond pan aeth
y Rhwyg-

y Rhwygwyr, Ypryd-
wyr, y crynwyr y
gwrthfedyddwyr yr
Anghrogynniaid, *ar*cro-
gynniaid *o* bresbiteri-
aid, *i wrteithio r Efen-*
gyl ac i hau eu hefrau, ac
i haeru yn haerllyd mai
hwnnw yw r gwenith go-
rau, ac wrth fin arfau i
anrheithio yr Ecclwys ai
Gweinidogion y *da ar*
drwg, mi welwn yn fadws
i minnau am cleddyf coch,
wedi methu r glas, antu-
rio gymeryd Cryman *i*
dorri ymaith y dreiniach,
ar

ar mieri, a ddercbafodd i oreſgyn ac i orchfygu y gwinwydd melyſion; ac er mwyn iti (ddarllenydd mwynaidd) o falu am ochel y gau brophwydi ar brydwyr ynfydfodd hynny, a dilyn yr vnionlwybr y gweli di ei ddechrau yna, yr ſcrifenwyd hyn gan dy gydwladwr

Parod ith waſanaethu

Row. Vaughan.

Gwyddor Gymraeg ir

anllythrennog i ddyſgu darllain.

Aa Bb Cc Dd Ee
Ffff Gg Hh I L
l ll Mm Nn Oo
Pp R r Sſ Tt V u
W w Y y Z, &c.
ac felly.

ab c d dd e fff g h i l ll
m n o p r ſ t u w y z.

A B C D E F G H I L
LL M N O P R S
T V W Y.

Ab

Ab eb ib ob ub wb yb

ac ec ic oc uc wc yb

ad ed id od ud wd yd

&c.

Y Bogaliaid *a e i o u w y.*
ar lleill eu gyd yw r
cyd ſeiniaid.
Y : ſydd a dau ſwn me-
gis yn y gair hynny.

Yn enw yr Tad ar mab ar yſpryd glan, Amen.

BOgeiliaid à gaid ir gwydd ai gorchwyl
Wna gyrchu gair celfydd
Cydsain gywrain yn geuryda,
Llythrennau elfennau fydd.

Os ti aflini heb flys ir weithred,
Yr Athro a ddengys,
Dysg rwydd brif dasg a rodd brys
Yw dealliad ewyllys.

Gmer waith fwyniaith i fyned ym mlaen
Moliannus yw r weithred,
Rhag cwympo rhaid croppio crêd
cwyn cywirddoeth cyn cerdded.

Athrylith fendith yn fwynder enaid,
i ynnill vchelder
Trwsiodd y Doctor Usher
ir iaith hyth Athrawiaeth bêr.

Natur goeth chwilboeth awch helbul oedran
Wna edrych yn feingul,
ar agwedd yn oer ogul
ar foch a fu goch yn gul.

Rhai nadant gwadant roi gwin neu fwydydd
neu fedydd i fechgin,
Rhwygwyr traws rhegir eu trin
ar Browniaid.———

Gwyn ei fyd ryw bryd gar bron y gwirdduw,
a gerddo r ffordd vnion
a gochel mal ffel ai ffon
Camwedd a llwybrau ceimion.

Dyddiau a noſau anweſawl pechais
Yn mhob buchodd farwawl,
Dod im ras rhyg as yw r hawl
Duw i farw n edifeiriawl.

Amen, felly y byddo, &

Prifanna

PRIFANNAU

Crefydd

Criſtionogawl yn Drwyadl,

Wedi eu gofod ar lawr yn ol gair Duw.

HOL,

PA ddiogel ſail ſydd gennych i adeiladu eich Crefydd arni?

ATTEB.

Gair Duw, cynhwyledig yn yr yſgrythyrau. 2 Pet. 1. 19. 2 Tim. 3. 15.

Holi. *Pa beth yw'r Scrythyrau hynny?*

2 Pet. 2. 2.
1 Tim. 3. 16.

Atteb. Yſgrythyrau ſanctaidd a ſcrifennwyd gan Duw ei hunan, er mwyn athrawiaeth berffaith iw eglwys.

Hol. *Pa beth yr ydych chwi yn e gaſglu oddiwrth hynny ſef fod Dun yn Awdur ir Scrythyrau hynny*

Atteb. En bod gan hynny, c

Luc. 16.
Gal. 1. 8.
Eſay 8. 20.

argoel tradiogelaf ac vchela awdurdod.

Hol. *Pa fodd y maent yn gwa ſanaethu i athrawiaethu yr eglwy yn Berffaith?*

2 Tim. 3. 16, 17.

Atteb. Yn gimaint ai bod yn ddigonol in hathrawiaethu yn holl bynciau y Ffydd yr rhai y ydyem ni rwym iw credu, ac yn yr holl ddyledion daionus ar y ydym ni rwym iw harferu.

a Deut. 31. 11, 12.
Joſu. 8. 35.
Ioan 5. 39.
b Act. 17. 11.
1 Cor. 4. 6.

Hol. *Pa beth yr ych yn ei addyſgu o hynny?*

Atteb. Fod yn Ddyled i ni ein gwneuthur ein hunain yn gydnabyddys ar Scrythyrau Sanctaidd hyn, ac na *b* Dderbynniom vn ddyſgeidiaeth heb ei ſail a warant oddiyno.

Yr ail Brifran.

Hol. *Pa beth yw r pwngc cyntaf o gresydd yr ych chwi iw ddysgu allan o sanctaidd air Duw?*

Atteb. Naturiaeth neu anian Duw.

Hol. *Pa beth yw Duw?*

Atteb. Duw *a* sydd Yspryd, tra pherffaith, *b* tradouth hollalluog a thra sanctaidd.

Hol. *Pa beth yr ych yn ei feddwl wrth alw Duw yn Yspryd?*

Atteb. Nad oes iddo vn co phollawl, ac am hynny ni syddylid i sod ef yn debyg i ddim a ellid ei weled a golwg dyn.

Hol. *Pa nifer o dduwiau sydd?*

Atteb. Un Duw yn vnig eithr tri pherson.

Hol. *Pa vn yw r person cyntaf?*

Atteb. Y Tad *d* yr hwn sydd yn cenedlu y mab.

Hol. *Pa vn yw r ail?*

Atteb. Y mab cenedledig gan y Tad.

Hol. *Pa vn yw r trydydd?*

a Joan. 4.24.
b Dudc 18.
Act. 17.14.15.
Dib 1.8.4.
1 Tim 1.17.
Job [illegible]
Je[illegible]
Ex. [illegible]
Ps. [illegible]
Co[illegible]
Rhu[illegible]
Deut. [illegible]
aduo 12.26.
1 Tim. 1.17.
Eph. 4.5,6.
1 Cor. 8.4.
Deut. 4,35,39.
Math. 28.19.
Joan 5.7.
d Heb. 1.31.
1 Pet. 1.3.
Eph. 1.3.
Heb. 1.6.
Joan. 1.14.
Phil. 2.7.

Jon.15.16. Gal.4.6. 1 Jon.4.13. *Atteb.* Yr yſpryd glan yn deilliaw oddiwrth y tad ar mab.

Y trydydd Brifran.

Acts 2.28. Cap.15.18. Pſal.33.11. Eph.1.11. Hol. *Pa beth a wnaeth Duw cyn gwneuthur y byd?*

Atteb. Efe o flaen holl amſer trwy ei gyngor digyſnewidiol a dreſnodd bob rhiw beth a ddigwyddai.

Hol. *Ym mha fodd y cafas yr holl bethau eu dechreuad?*

Gen.1.1. Heb.11.3. Exod.20.11. Dud.4.11. *Atteb.* Yn nechreuad amſer pryd nad oedd i vn creadur, vn rhiw ſylwedd, y creawdd Duw trwy ei air yn vnig, yr holl bethau mewn ysbaid chwe diwrnod.

Hol. *Pai rai ywr prif greaduriaid?*

Heb.1.7, 14. *Atteb.* Angelion a dynion.

Hol. *Pa beth yw naturieth Angelion?*

Heb.1.14. Col.1.16. *Atteb.* Y maent hwy ollawl yn yſprydawl, heb vddynt hwy ddim corph.

Hol. *Pa beth yw naturieth dyn?*

Atteb.

Atteb. Y mae ef yn gynwyſedig o ddwy amriw ran, ſef corph ac enaid. Gen. 2. 7. Heb. 12. 9.

Hol. *Pa beth yw r corph?*

Atteb. Y rhan ddauarol o ddyn oddiallan, a wnaethpwyd yn y dechreuad o lwch y ddauar. Gen. 2. 7. Gen. 3. 19.

Hol. *Pa beth yw r enaid?*

Atteb. Yr yſprydol ran i ddyn oddifewn, yr hon ſydd anfarwol ac ni eill fyth farw. Eccleſ. 12. 7. Mat. 10. 28. Dud. 6. 9.

Hol. *Pa fodd y darfu i Dduw wneuthur dyn yn y dechreuad?*

Atteb. Yn ol ei ddull ai ddelw ei hun. 2 Cor. 5. 2. Gen. 1. 26.

Hol. *Ym mha le yr oedd delw Dduw iw weled yn enwedidiccaf?* 2 Pet. pen. 1

Atteb. Ym mherffeiddrwydd ei ddeall, a rhydd-did a ſancteiddrwydd ei ewyllys. Col. 3. 10. Eph. 4. 24. Eccleſ. 7. 29.

Hol. *Peſawl dyn a greywydyn y dechreuad?*

Atteb. Dau *Adda* y gwr, ac *Efa* y wraig, oddiwrth yr hyn ddau, yn ol hynny y deilliawdd ac yr hanodd holl ddynawl ryw. Gen. 1. 26, 27. Gen. 2. 18. Acts 17. 26. 1 Tim. 2. 13.

Y pedwerydd Prifran.

Hol. *Pa beth y mae Duw yn ei wneuthur yn ol y creadigaeth?*

Joa.5.17. Nehem. 9.6. Pſal.119. 91. Heb.1. 3,11. Act.17.26,28. Math.10.30. Dihar. 16.33.

Atteb. Trwy ei ragymweliad y mae ef yn coleddu a llywodraethu ei greaduraid, a holl bethau perthynaſol vddynt.

Ho. *Pa beth a ddigwyddodd i Angelion yn ol eu creadigaeth?*

2 Pet.2.4. Joa. 8.24. 1 Joa.3.8. Math.15,32, 41. Joa.8.44. 1 Jor.3.8.

Atteb. Rhai o honynt a arhoſaſant yn y ſtât ſanctaidd yn yr hon y creuwyd hwy, rhai o honynt a gwynpodd ac a ddaethant yn ddiafoliaid.

Hol. *A eill yr Angelion da gwympo yn ol hyn?*

1 Tim.5.21. Math. 18.10. Luc.20.30.

Atteb. Na allant, eithr hwy a barhant bob amſer yn eu ſancteiddrwydd ai dedwyddwch.

Hol. *A eill yr Angelion drwg fyth ynnill y cyflwr cyntaf a gollaſant è.*

2 Per. 2. 4. Jud.6. Mat.25.41. Dut.20.10. Mal.2.10. Gen 2.17. Rhn.2.15.

Atteb. Na chânt ond eu poeni yn vffern byth bythol heb ddiben.

Hol.

Hol. *Pa fodd y gwnaeth Duw a dyn wedi ei wneuthur ef?*

Atteb. Efe a wnaeth gyfammod a chyttundeb ac *Adda* ac ynddo ef a holl ddynawl ryw. 2 Per. 2. 4. Jud. 6. Math. 25. 41. Dad. 20. 10.

Hol. *Pa beth yr oedd dyn yn rhwym iw wneuthur trwy r cyfammod hwn?* Mal. 2. 10. Gen. 2. 14. Rhu. 2. 15.

Atteb. I barhau i fod mor ſanctaidd, ac y gwnaethai Duw ef yn y cyntaf i gadw holl orchymynnion Duw, a byth heb dorri vn o honynt. Luc. 10. 26, 27 Rhu. 7. 7, 12, 14. Gal. 3. 10, 12. 2. Tim. 3. 5.

Hol. *Pa beth a addawodd Duw i ddyn os efe fal hyn a gadwai ei orchmynion ef?*

Atteb. Parhâd ei Ffaſor, a bywyd tragwyddol. Gal. 3. 12. Lu. 10. 25, 26, 27, 28.

Hol. *Pa beth a fygythiodd Duw wneuthur i ddyn os ef a bechai a thorri ei orchmynnion ef?* Rhu. 7. 18. Cap. 10. 5.

Atteb. Ei felldith oſnadwy a marwolaeth dragwyddol. Gen. 2. 17. Gal. 3. 10. Levit. 26. 14, 15, 16. Deut. 18. 15, 16. Cap. 18. 19, 20.

Ypumed Prifran.

Hol. *A barhaodd dyn yn yr vſudd-dod hwnnw, yr hyn oedd ddyleddus arno i dduw?*

Atteb. Na ddo: Canys *Adda* ac *Efa* gan vſuddhâu yn hytrach i gyngor y cythrael, nag i
Gen. 6.1, 6. Eccleſ. 7.29. Joa. 8.45. Rhu. 5.14,15. orchmynnion Duw a fyttaſant or pren gwaharddedig, ac felly a gwympaſant ymaith oddiwrth Dduw.

Hol. *Ai hyn oedd bechod* Adda *ac* Efa *yn ving, neu ydym ni yn enog or vn rhiw?*

Rhu. 5.12,14, 15,18. Gen. 5.3. ar 8.2. Pſal. 5.5. Job 14. Rhuf. 7.14, 18,23. *Atteb.* Nyni oll ydym blant vddynt hwy, ydym enog or vnrhiw bechod, Canys ni a bechaſom eu gyd ynddynt hwy.

Hol. *Pa beth a gynllynodd y pechod yma?*

Eph. 4.22,23. Rhu. 3,21. *Atteb.* Colledigaeth o ddelw Dduw, a llygredigaeth anian a dyſodd newn dyn, yr hwn a el

lwir

lwir pechod dechreuol neu gwreiddiol.

Hol. *Ym mha beth y mae llygredigaeth anian dyn yn Sefyll?*

Atteb. Mewn chwe pheth yn bennaf.

Hol. *Pa vn yw r cyntaf!*

Atteb. Dallineb ein dealldwriaeth yr hwn ni ddichon fynnied y pethau fydd ô Dduw. 1 Cor. 1. 14. Jer. 24. 7. Eph. 4, 17, 18, 19. 2 Cor. 3. 5, 14.

Hol. *Pa beth yw r ail?*

Atteb. Abergofiad y cof, anghymwysi gofio pethau daionus. Deut. 3. 18. Pfal. 119. 16.

Hol. *Pa beth yw r trydydd?* Dihu. 3. 1.

Atteb. Gwrthryfelgarwch y meddwl, yr hwn fydd ai gwbl dueddar bechu ac yn ollawl yn anvfudd i ewyllys Duw. Pfal. 106. 21. Rhut. 8. 5, 6. Job 1. 13. Phi. 2. 13. Ephef. 4. 19.

Hol. *Pa vn yw r pedwerydd?*

Atteb. Anrhefnedigaeth y chwantau, megis llawenydd, trymder, cariad, digofaint, ofn ar cyffelib. Rhu. 16. Jac. 3. 15. et 4. 5.

Hol. *Pa beth yw r pumed?*

Atteb. Ofn, a therfygedd yn y cydwybod, gan euog farnu lle

nas

nas dylai, ac eſcuſodi y peth a ddylai ei euog farnu.

Tit. 15. 16. Heb. 10. 22. Rhu. 7. 9. Joan. 16. 2.

Hol. *Pa beth yw r chweched?*

Atteb. Pob aelod or corph ſy n dyſod yn offeryn parod i wneuthur anwiredd.

Job 31. 3. Rhu. 6. 13, 19. et cap. 3. 3. 14, 15. 2 Pe[illegible]. 14. Pſa[illegible] 57. Eph. 6. 16, 17. Deu. 7. 5. Gal. 5. 19, 20, 21. Math. 15. 19. Math. 12. 34, 35, 36. & cap. 15. 19. Act. 8. 22. Jac. 3. 2. Mat. 25. 42, 43. Iay 1. 16, 17. Mar. 7. 21, 22. Deut. 28. 45. Luc. 16. 23, 44 Mat. 25. 41.

Hol. *Pa beth yw r Ffrwythau ſyddyn deilliaw oddiwrth y llygredigaeth anianol hyn?*

Atteb. Pechodau gweithredol, trwy y rhai, y torrwn ni orchmynnion Duw yn holl yrfa ein heinioes.

Hol. *Pa fodd yr ych chwi yn torri gorchymynion Duw?*

Atteb. Mewn meddwl, gair, a gweithred, heb wneuthur yr hyn a ddylem ni ei wneuthur, a gwneuthur yr hyn ni ddylem ni ei wneuthur.

Hol. *Tan ba ryw goſpedigaeth y mae dynol ryw o herwydd ei ddechreuol ni weithredol bechod?*

Atteb. Y mae of tan holl blanau Duw yn y bywyd hwn, a phoenau didrangcedig yn vffern yn ol y bywyd hwn?

Y pumed Prifran.

Hol. *A Ddarfu i Ddduw adel dyn yn y cyflwr echrys hyn?*

Atteb. Na ddo, eithr oi rwydd ddihaeddedigol drugaredd, efe a ddaeth i gyfammod newydd a dynol ryw. Ezec. 16. 8, 60, 62. Zac. 9. Jer. 31. 11.

Hol. *Pa beth yr ydis yn ei gynyg i ddyn yn y cyfammod newydd hwn?*

Atteb. Gras a bywyd tragwyddol a gynnygir yn rhywddrad ir holl rai a gymmodant a Duw, trwy ei Fab Jesu Grist, yr hwn yn vnig yw r cyfryngwr rhwng Duw a dyn. Rhu. 5. 24, 25. Rhu. 5. 15, 16, 17, 19, 20, 21. Eph. 2. 7, 8, 9. 1 Tim. 2. 5, 6.

Hol. *Pa beth yr ych chwi yn ystyried yng-CRIST cyfryngwr y cyfammod hwn?*

Atteb. Dau beth ei anian, ai swydd.

Pesawl naturiaeth sydd yn-ghrist?

Atteb.

Rhu.1.3,4. Rhu.9.5. Gal.4.4.

Aeteb. Dwy, Duwdod, a dyndod, cyfylldedig ynghyd mewn vn perfon,

Heb.4.14. Pen. 9.14. Acts 20.28. 1 Pet.3.18. Ioa. 2.19, 21. Eph.1.2. Col.1.15. 1 Joa. 5.20. Rhu.8.9. 1 Joa.4.13. Col.2.13. Rh.1.4. Rh.14.15. Rh.8.34. Joa.5.25.

Paham y mae n rhaid i Grift fod yn Ddaw?

Atteb. Mal y byddai ei vfuddodd ai ddioddefaint o anfeidrol ac aneirif werth, a thaledigaeth, megis yn deilliaw oddiwrth y cyfriw berfon a fyddai Dduw gogyfiwch ai dard, mal y gallai orchfygu colyn angau (yr hyn yr oedd ei hûn iw oddef) ac in cyfodi ni i fynu o farwolaeth pechod, tryw anfon ei yfyryd glân in calonnau.

Gal 4.4. 1 Cor.15. 21. Heb 2.13,16. Rh. 5.12.19. Joa.1.16.

Paham oeddraid i Grift fod yn ddyn?

Atteb. O achos na allai r duwdod mor dioddef, ac yr oedd hefyd yn anghenrhaid, gael or vn anian a droteddâfai ddioddef am ycamwedd, a bod ón hanian niyr hon a lygrefyd yn yr *Adda* cyntaf, i gael ei adferu iw burdeb yn yr ail *Adda* Crift Jefu ein harglwydd.

Po

Pa peth yw swydd Crist?

Atteb. I fod yn gyfryngwr rhwng Duw a dyn. 1 Tim.2.5. 1 Joa.2.1. Heb.12.24.

Pa beth yr oeddyd yn ei ofyn gan Grist i wneuthur heddwch a chymod rhwng Duw a dyn? Job 9.33. Rh.8.3,4,10. Gal.4.4,5.

Atteb. Iddo ef roi bodlonrhwydd am y cyfammod: cyntaf ir hwn yr oedd dyn yn rhwym. Rh.10.4. Mat.5.17. Heb.5.8,9,10. Heb.10.5,10. Phil.2.7,8.

Ym mha fodd yr oedd Crist i roi bodlonrhwydd ir cyfammod cyntaf? Joa.4.34. Esa.53.10,11. 1 Pet.2.24.

Atteb. Yn cyflawni y cyfiawnder yr hyn yr oedd cyfraith Dduw yn ei ofyn gan ddyn, yn dwyn y Gospedigaeth am dorri y gyfraith honno.

Pa fodd y darfu i Grist gyflawni y cyfiawnder hwnnw yr oedd y ddeddf yn ei ofyn gan ddyn?

Atteb. Yn ymodd y cafas ei ymddwyn trwy r yspryd glan heb frychewyn o lygredigaeth dechreuol ac y bu fyw yn sanctaidd holl ddyddiau ei fywyd heb pechod gweithredol. Luc.13.5. 1 Pet.1.19. Pen.2.22. 1 Joa.3.5. Esa.53.9. Joa.8.29,46. Pen.15.10. Heb.7.25,26.

Pa

Pa fodd y dygodd ef y goſpedigaeth yr hon oedd ddyledas i ddyn am dorri cyfraith Ddaw?

Gal.3. 13. 21. ar.2. 23, 24. Eſa.53.10 11. Mat. 26. 37, 38,39. Luc. 22. 43, 44. Heb.5.7. Phil. 2.8. Heb.9.14.15. ac ad 26. 28. Heb. 10.20. 12.ar 13. Ioa.1.11,12.

Atteb. Yn yr hyn y gwnaeth eſe ef ei hun yn ewyllyſgar yn ſail i felldith y gyfraith, yn gyſtal yn ei gorph ai enaid, ac a ymoſtyngodd ei hun i farwolaeth, gan ei offrwm ei hun ir Tâd yn aberth berffaith am holl bechod plant Duw.

Y ſeithfed Prifran.

Ioa.1.11,12. Rh.5.17. Heb.36.14.

Pa beth a erfynnir ar law dyn am gael donniau yr Efengyl?

Atteb. Iddo ef dderbyn *Criſt Jeſu* yr hwn a offrymmodd Duw yn rhâd iddo.

Trwy ba foddion yr ych chwi i dderbyn Criſt?

Col.2.6,7. Ioa.1.12,13. Pen.6.29, 35, 40,47. Pen.7. 37,38. Eph. 1.13.

Atteb. Trwy Ffydd, i gredu addewidion grafuſol yr Eſengyl.

Pa

Pa fodd yr ych chwi yn derbyn Crift trwy Fydd? Rh.5.17. Heb.3.6. Col.26.7.

Atteb. Gan ymaflyd y nddo ef ai ofod ef ai d doniau yn gyfur im henaid fy hun. Rh.9.30. Ioa.4.41,42, 50,53. Ioa.6.29,35, 40, 47, 48, 50, 51, 53, 55, 56, 57, 58. Gal.2.20. Pca.3.27.

Pa beth yw r prif ddawn cyntaf, yr ym yn ei gael wrth dderbyn Crift fal hyn?

Atteb. Cyfiawnhâd, (trwy r hyn) ynghrift yr ydis yn ein cyfrif yn gyfiawn, ac felly ein rhyddau oddiwrth ddamnedigaeth, a chael diogelwch o fywyd tragwyddol. 1 Cor.1.30. 2 Cor.2.19, 21. Rh.5.11, 16, 17, 18, 19. Rh.8.1, 2, 33, 44.

Ym mha beth y fai y cyfiawnhâd hwn?

Atteb. Ym maddeuant ein pechodau.ac yn cyfrif cyfiawnder Crift i ni. 1 Ioa.1.7,8. Rh.4.3, 4,5, 5,6,7,8,9. 1 Cor.1.30. Rh.3.3,4. Eph.1.7. Efa.53.11.

Pa fodd felly y gallwn ni edrych am ein cyfiawnhau yngolwg Duw?

Atteb.

Phil.3.9. Rh,3.24. Gal.3.6. Pea.2.16.

Atteb. Yn vnig trwy haeddedigaethau CRIST JESU, derbynedig genym trwy Ffydd.

Pa brifddawn arall yr ym yn ei gael wrth dderbyn Crift?

1 Cor.6.11. 1 Thef.5.23. 14.a.4. Rh 6.7. Col.3.5,9,10. Tit.3.5,6,14. Acts 26.20. Mat. 3. 8. Acts 2.26.

Atteb. Sancteiddhâd, trwy r hyn yr ym yn rhydd oddiwrth greulondeb pechod, ac yr adnewyddir delw Dduw ynom.

Ym mha beth y gwelir y ſanctteiddiad hyn?

Atteb. Mewn edifeirwch ac vfudd-dod newydd yn tarddu oddiyno.

Pa beth yw edifeirwch?

2 Tit.25. Ier.3.18.19. 2 Cor.7.10, 11. Acts 3.19. Acts 26.18. Pſa,119.111, 112.

Atteb. Edifeirwch ydyw rhodd Duw trwy r hon y gweirhredir cyſtudd duwiol ynghalon y Ffyddlonniaid, am ddigio Duw eu tâd trugarog am yr anwiriddau a wnaethont, gyda a chwbl fwriadu ór pryd hynny allan, i ymwrthod ac i arwain bywyd newydd.

Pa beth yr ydych chwi yn ei alw vfadd-dod newydd?

Atteb

Atteb. Amcaniad gofalus yr hyn ſydd gan y Ffyddlonniaid i roi vſud-dod diffuantus i holl orchmynnion Duw yn ol meſur y nerth, ar hwn y darſu i Dduw ei nerthu ef. LPc.1.6, 74, 75. Pſa.116.6. 1 Pet.4. 2,3,4. 1 Ioa.3. 3,4,5.

Pa reoledigaeth ſydd inni in cyfarwyddo yn ein vſudd-dod? Exod.20. 1.

Atteb. Cyſraith ſoddol Dduw, cwbl-rif yr hon a gynhwyſir yn y deg gorchymynnion. Mat.15. 6,9. Pſal.119.105, 106.

Pa beth yw r (prifrannau or gyfraith hon? Deut.5.328 Exod. 3.27, 28.

Atteb. Y dyledion ty ag at Dduw, goſodedig i lawr yn y llech gyntaf, ar hyn ddyledus ty ag at ddyn, yn yr ail. Mat.22.37,38 39. Mar.12. 30, 31,33. Luc.1,72.

Pa beth yw cwblarch y llech gyntaf? cap.10.26,27. Eph.4.24.

Atteb. I ni garu yr Arghwydd ein Duw, an holl galon, an holl enaid ac an holl feddwl. 1 Tim.2.2. Mar.22.17,38.

Pa gynifer o orchymynnion a berthynant ir tabl hwn?

Atteb. Pedwar. Ex.20.2.

Pa ddyled a gynhwyſir yn y gorchymyn cyntaf?

Atteb.

Ad.2.3. *Atteb.* Fod yn yr holl nerthoedd oddiffewn, a chynneddfau yr enaid ir gwir dragwyddol-Dduw gael ei groefawu ac ef yn vnig.

Pa ddyled a efodir yn yr ail orchymyn?

Ex.20.4,5,6. *Atteb.* Fod holl Foddau Crefydd oddiallan a gwafdadol addoliad, iw roddi ir vnrhiw Dduw yn vnig, ac na byddo y gronyn lleiaf o blygu glin y corph, iw roddi i lun neu ddelw, vn ai llun Duw, ai vnrhiw fath arall pa fath bynnac.

Pa beth a ofynnir i ni yn y trydydd orchymyn?

Ad 7. *Atteb.* I ni ynghyffredinol dreigl ein dyddiau, arferu Duw (hynny yw ei enwau, ei air, ei weirhredoedd, ei farnedigaethau, a pha beth bynnac y mynnai ef gael ei adnabod ei hun wrtho) gyd ag anrhydedd, a phob duwiol barch mal ym mhob pethy gallo ef gael dyledus ogoniant iddo.

Pa

P*a beth ymae y pedwerydd orchymyn yn ei erchi?*

Atteb. I ni gadw yn Sanctaidd y dydd Sabboath, gan orphywys oddiwrth gyffredinol draffertn y byd hwn, a chan roddi yr ennyd honno ar orchwylion creiydd yn gyftal cyhoeddns, a neilldu-ol. Exod. 20. 9, 10.

P*a beth yw cwbl hid yr ail lech?*

Atteb. I ni garu ein cymmydogion fal nyni ein hunain.

P*a Orchymynion a berthynant ir dabl hwn?*

Atteb. Y chwech olaf?

P*a gyfriw ddyledion a ddangoſir yn y pymed gorchymyn yr hwn yw r cyntaf or ail dabl!*

Atteb. Y cyfriw ddyledion a gyflawnir ag enwedigol barch i benaethiaid, ir tanddeiliaid, ac in cyftadlwyr, mal yn enwedig anrhydedd ir holl benaethiaid, vfudd-dod ir cyfriw rai o honynt ac ſydd mewn awdurdod, a phob cyfriw ddyledion neilldnol, a berthyn

berthyn i wr neu i wraig tadau a phlant, meiſtred a gweiſion, ſwyddog ar bobl, bugeiliaid ai praidd, ar cyfriw fath.

Pa beth y mae y chweched gorchymyn yn ei erchi?

Exod. 20.13. *Atteb.* Amddeffyn a diofalhau cyrph eu gyd ddynion ar holl ſoddau yn perthyn i hynny.

Pa leth a ofynnir yn y ſeithfed gorchymyn?

Ex. 14. *Atteb.* Cadwadigaeth diweirdeb cyrph dynawl, o ran y gadwraeth hynny y gorchymynnir petiodas ir rhai ſydd anghenrhaid vddynt hynny.

Pa beth a oſodwyd yn yr wythfed orchymyn?

Ex. 20.15. *Atteb.* Pa beth bynnac a berthyn i gyfoeth y bywyd hwn, vn oi on rhan ein hunain, neu o ran ein cymydog. On rhan ein hunain i ni laſurio yn ddyfal, mewn galwedigaeth oneſt, a buddio-

gan

gan ein bodloni ein hunain ar cyſoeth a ynnilled yn dda, ai gosod trwy haelioni i orchwylion da: o ran ein cymydogion, i ni arfer cyfranniad vnion ac hwnthwy, o herwydd hyn, ac arfer holl ſoddau a ddichon eu hyfforddi yn eu bywioliaeth.

Pa beth y mae r nawfed gorchymyn yn ei erchi?

Atteb. Arfer o wirionedd yn ein margeinion y naill ar llall yr enwedig, i amddeffyn enw da ein cymydogion, Ez. 20. 16.

Pa beth y mae y degfed gorchymyn yn ei gynwys yndda?

Atteb. Y mae yn condemnio ac yn hybu holl feddyliau gwibgrwydrus, ſydd yn anghyttuno ar cariad ſydd ddyledus arnom in cymydogion, er na bom ni yn ymroi on e.s yllys at hynny byth. Ad 17. Mat. 5. 28. Rh. 7. 7.

Yr wythfed Prifran.

Pa foddau y mae Duw yn ei arferu i gymyg donniau ei Efengyl i ddynion, ac i weithredu a chynnyddu ei radau ynddynt?

Rh. 1. 15, 16. Pen. 10. 14, 15, 19, 17. 1 Cor. 1. 21. 3. 6. 2 Cor. 3.

Atteb. Gwenidogaeth yr Efengyl oddiallan.

cap. 1. 12, 28. Epheſ. 4. 11, 12, 13, 14.

Ym mha le yr ydis yn gwreuthur y weinidogaeth hon?

Mat. 18 17, 18. Acts 11. 26. Pen. 14. 23. Pen 15. 22. Pen. 28. 33, 34. Acts 2. 44, 46, 47.

Atteb. Yngweledig Eglwyſydd Criſt ẏ.

Pa beth yr ydych chwi yn ei alw yn Eglwys weledig?

Atteb. Cynylleidfaoddynion ſydd yn byw tan foddau iechydwriaeth.

Pa

Pa beth ydyw r prifbarthau or gwenidogaeth hyn?

Atteb. Cyfranniad y gair ar Sacrameutau. Mat.28. 19. Acts 2.41, 42, 44.

Pa beth yw r gair? pen. 20.7, 17. 1 Tim.3.9.

Atteb. Y parth hynny or weinidogaeth oddiallan, fydd yn ſefyll yn traddodi neu adrodd y ddy'geudiaeth. 1 Tim. 1.3,4, 5. Pen.4. 11,12, 13. Pen.5.17.

R.10.17. 1 Cor. 1.18. 21, 23, 24. Acts 14. 21. Pen. 20. 21, 27,31, 32. 1 Cor. 1. 8. 1 Tim. 2.15. Pen.4 2. Rh.10.14,16.

Pa beth ydyw Sacrament?

Atteb. Sacrament ydyw arwydd gweledig a dreſnwyd gan Dduw i fod yn ſêl i gydgryfhau addewidion yr Efengyl i hob gwir aelod i Griſt. Gen.17.10, 11. Rh. 4.11,12. Pen.2.28. 1 Cor. 10.1,2, 3,4.

Pa beth ydyw y Sacramentau *a ordein wyd gan Griſt yn y Teſtament Newydd?* Pen. 23.24. cap.12,13.

Atteb. Bedydd a Supper yr Arglwydd. Mat.28.19. Pen,26.26.

Pa beth yw Bedydd?

Atteb. Y Sacrament on cymeriad cynnhwysedig ir Eglwys, yn selio i ni ein genedigaeth newydd trwy r Cymun sydd i ni'n Christ Jesu.

Act. 2. 38, 41, 42.
Pen. 8. 36, 37.
pen. 1. 5.
Tit. 3. 5.
Gal. 3. 27.
1 Cor. 1. 13, 15. pen. 12. 13. Heb. 9. 14.

Pa beth y mae y defnyddiau neu r elfennau o ddyfr yn y Bedydd yn ei arwyddocáu i ni?

Atteb. Gwaed a haeddedigaethau Jesu Christ ein Harglwydd ni.

Act. 2. 38.
22. 16.
1 Ioa. 1. 7.
Heb. 9 14.
1 pet. 1. 19.
Dad. 1. 5.
Dad. 1. 5, 34.

Act. 22. 16. Mar. 3. 6, 11. Act. 8. 36 37. 1 pet. 14.

Pa

Pa beth y mae glanhau y corph yn ei arwyddoccau?

Atteb. Glanhau yr enaid trwy faddeuant pechodau ac ymwiſgo a chyfiawnder Crift? Mat. 3. 6, 11. Act. 8. 36, 37. Dad. 1. 5. 34. 1 Pet. 1. 4.

Pa beth y mae ein bodtan y dyfr an rhyddhau oddiwrth dracheſn yn ei arwyddoccau?

Atteb. Ein marw i bechod, trwy rym marwolaeth Crift, a'n bywhau drachefn i gyfiawnder trwy ei adgyfodiad ef. Rhu. 6. 4, 5, 6. Col. 1. 11, 12. 1 pet. 3. 21.

Pa beth yw Swpper yr Arglwydd?

Atteb. Sacrament on cynhabiaeth yn yr Eglwys yn ſefio i in ein porthiant yſprydol, an cynnygdd cyfanneddol yr Chriſt. Mat. 26. 26, 27, 28. 1 Cor. 11. 23, 24, 25, 26. 1 Cor. 10. 16. pen. 12. 13.

Pa beth y mae y defnyddiau fara a Gwin yn Swpper yr Arglwydd yn ei arwyddoccau ini?

Mat.26.26, 27. 1 Cor.10.25, 50,51. 1. pen. *Atteb.* Corph a gwaed Criſt. 16.11.20,23,24. 26. Ioa.6.33.

Pa beth y mae torraid y Bara a thywallt y gwin yn ei arwyddoccau?

Mat.26.26, 28. 1 Cor. 11. 24, 25,26. Eſa.53. 5, 6, 11,12. *Atteb.* Y dioddefaint trwy r hynny torrwyd ein Iachawdwr am ein anwireddau ni, tywalldiad ei waed gwerthfawr, a thywallt ei enaid ef allan i farwolaeth.

Pa beth y mae derbyn y bara ar gwin yn ei arwyddoccau?

1 Cor. 10. 16, 17. pen. 12, 13. Ioa.1.12. pen.7,37, 38, 40. 6. 27,29,35, 36, 40,48,43. 2 Cor.13.5. Epheſ.3.17 Heb.3.14. *Atteb.* Derbyn Criſt trwy Ffydd.

Pa

Pa beth y mae y lluniaeth yr hwn y mae ein corph yn ei ddarbyn trwy rinwedd prymbarth hwn oddiallan, yn ei ſelio ai wrantu i ni?

Atteb. Y maeth perffeithgwbl, ar cynnydd bennyddiol o nerth, yr hwn y mae y dyn oddifewn yn ei fwynhau trwy rinwedd y Cymmun a Chriſt Jeſu. Ioa.6.34, 50, 51, 54, 56, 57, 58. Eph.4.16. Eph.3.17.

Y nawfed Prifran.

Pan ddiweddo yrfa y bywyd hwn, pa beth a fydd cyflwr dyn yn y bydd ddaw.

Heb.9 27. 2 Cor.5.8, 9, 10. Eccle∫.12.7.

Atteb. Pob vn a obrwyi yn ol y bywyd a arweiniodd. Set a delir iddo yn ol ei haeddedigaeth.

Pe ∫awl math or farn hon ∫ydd?

Gen.3.19. Act.17,31.

Atteb. Dwy fath, vn yn neilldvol, ar llall yn gyffredinol.

Pa beth a elwch chwi y farn neilldvoll?

Eccl.12.7. Heb.9.27.

Atteb. Yr hon yr ydis yn ei roi ar enaid pob dyn, cyn gynted ac ymadawo ef ar corph.

Pa

Pa beth yw cyflwr enaid dyn hwy n'gyntef ac yr ymadawo ar bydyma?

Atteb. Eneidiau plant Duw yn ebrwydd a dderbynnir ir nef, yno i feddianu gorfoledd anrhaethadwy; eneidiau y rhai drygionus a anfonir i vffern, yno i oddef poenau didrangcedig.

Luc. 16. 22, 25. pen. 23. 43. Dad. 14. 13. Efa. 57. 1, 2. 2 Cor. 5. 6. 8. 1 Pet. 3. 19. Efa. 22. 14. Ioa. 8. 24.

Pa beth yr ydych chwi yn ei alw y farn gyffredinol?

Atteb. Yr hon y mae Crist yn ei fawredd parchedig yn ei roi ar bob dyn o'l at vnwaith pan ddelo ef yn y dydd olaf, yd â gogoniant ei cad: ar holl ddyn[illegible] ar a fu erriod i ynghyd oi fla[illegible] yn ; yllal mewn corph ag [illegible] pa vn bynnae a fyddont ai byw ar matw.

Mat. 13. 40, 41, 42, 43, 49, 50. pen. 19. 28. pen. 24. 30, 31. pen. 25. 31, 32, 33, 46. Heb. 1. 11. pen. 3. 19, 21. pen. 17. 31. 1 Cor. 4. 15. 15. 1 Pet. 5. 4. 16. Ioa. 4. 27.

1 Cor. 15. 52. 1 Tim. 4. 1. 1 Cor. 3. 2 Thef. 1. 7, 8. 2 Pet. 2. 10. 1 Thef. 4. 28.

Pa

Pa fodd yr ymddengys y meirw i flaen gorfed-faingc Crift?

Job 19.25, 26,27. Dan.12.2,3. Joa.5.28, 29. Joa.11.24. 1 Cor.15.12, 13,14,32, 50, 51.

Atteb. Y cyrph y rhai oedd vddynt yn amfer eu bywyd, trwy ollalinog nerth Duw, a adferir vddynt dracheſn, ac au bywheir ai heneidiau, felly y bydd adgyfodiad oddiwrth y meirw.

1 Theſ.4.14, 15,16. Dad.20.12, 13.

Pa ſodd yr ymddengys y rhai byw?

1 Theſ. 4.15, 16,17. 1 Cor.15. 51, 52,53.

Atteb. Cynnifer ac a fyddo y pryd hynny yn aros ymma n fyw, a gyfnewidir wrth amrantyn llygad.yr hyn a fydd vddynt yn lle marwolaeth.

Pa farn a lefara Duw ar y cyfiawn?

Mat.25.41. Rh.2.0, 9. 2 Theſ.1.9, 10. Rh.2.7,10. Da. 22.14.

Atteb. Denwch chwi fendigedig blant fyn nhad etifeddwch y deirnas a barotowyd i chwi cyn ſeilio y byd.

Pa

Pa farn a adroddir ar y dry-gionus?

Ewch oddiwrthyf fi felldigedig ir tân tragwyddol yr hwn a ddarparwyd i ddiawl ai Angelion. Mat.25.41. Rh.2. 8,9. 2 The.1. 8,9. Dad.22.15.

Pa beth wedi hynny?

Atteb. Crist a rydd i synu ei deyrnas iw dâd a DUW a sydd oll yn oll.

Diwedd.

Volet hæc

sub luce videri,

Judicis argutum quæ non

formidat acumen.